YSTADEGAU

# Presenoldeb mewn lleoliadau awdurdod lleol yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19): 26 i 29 Mai 2020

Presenoldeb plant a staff yn ystod yr wythnos (ac eithrio gwyliau banc) mewn lleoliadau awdurdodau lleol yn ystod y pandemig coronafeirws parhaus ar gyfer 26 i 29 Mai 2020.

Cyhoeddwyd gyntaf: 1 Mehefin 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 1 Mehefin 2020

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-26-i-29-mai-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cynnwys


1. Prif ffigurau cenedlaethol


2. Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

3. Manylion cyswllt


# 1. Prif ffigurau cenedlaethol

Mae'r ffigurau diweddaraf yn y datganiad hwn yn cwmpasu'r wythnos 26-29 Mai, a fyddai fel arfer wedi bod gwyliau ysgol y Sulgwyn. Yn unol â'r tueddiadau a welwyd dros wyliau ysgol y Pasg, mae'r ffigurau ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf hon yn is nag yn ystod yr wythnosau blaenorol.

**Siart 1: Nifer y lleoliadau ar agor a nifer y plant a staff yn mynychu yn ystod yr wythnos, 24 Mawrth i 29 Mai 2020**




Ffynhonnell: Data Cymru

### Nifer y lleoliadau ar agor a nifer y plant a staff yn mynychu yn ystod yr wythnos, 24 Mawrth i 29 Mai 2020 (MS Excel)


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-26-i-29-mai-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Yn ystod yr wythnos o 26 Mai i 29 Mai:

- Ar gyfartaledd roedd 390 lleoliad ar agor bob dydd, i lawr o'r 456 yr wythnos flaenorol. Roedd 583 o leoliadau ar agor ar gyfartaledd yn ystod yr wythnos cyn gwyliau ysgol y Pasg. Mae mwy o awdurdodau lleol wedi symud tuag at ddefnyddio 'hybiau' ers i ni ddechrau casglu'r data.
- Roedd 4,500 o blant yn bresennol yn y lleoliadau, i lawr o'r 5,600 yn y wythnos flaenorol ond i fyny o'r 3,300 dros y pythefnos cyn y gwyliau ysgol Pasg. Fel arfer, mae presenoldeb ar ddydd Gwener yn is, sydd efallai yn adlewyrchiad o batrymau gweithio gweithwyr allweddol rhan amser.
- Roedd 2,800 o staff yn bresennol, i lawr o 3,400 yr wythnos flaenorol a'r 3,100 yn yr wythnos cyn y gwyliau ysgol Pasg.

**Siart 2: Canran y lleoliadau ar agor yn ystod yr wythnos, 24 Mawrth i 29 Mai 2020**




Ffynhonnell: DataCymru a Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ionawr 2020 (CYBLD), Llywodraeth Cymru

**Canran y lleoliadau ar agor yn ystod yr wythnos, 24 Mawrth i 29 Mai 2020 (MS Excel)**

Yn ystod yr wythnos o 26 Mai i 29 Mai:


- Ar gyfartaledd roedd 26% o leoliadau ar agor, i lawr o'r 31% dros yr wythnos flaenorol ac i lawr o'r 39% yn yr wythnos cyn y gwyliau ysgol Pasg.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-26-i-29-mai-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 3: Canran y plant a staff yn bresennol yn ystod yr wythnos, 24 Mawrth i 29 Mai 2020




Ffynhonnell: DataCymru a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ionawr 2020 (CYBLD), Llywodraeth Cymru

**Canran y plant a staff yn bresennol yn ystod yr wythnos, 24 Mawrth i 29 Mai 2020 (MS Excel)**

Yn ystod yr wythnos o 26 Mai i 29 Mai:


- 1.3% neu lai o blant wedi mynychu lleoliad awdurdod lleol pob diwrnod ers i ni ddechrau casglu'r data.
- Ar gyfartaledd, 5.5% o staff yn bresennol mewn lleoliadau awdurdod lleol yn yr wythnos hon, i lawr o’r 6.7% dros yr wythnos flaenorol a’r 6.1% yr wythnos cyn y gwyliau ysgol Pasg.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-26-i-29-mai-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Siart 4: Nifer a chanran y plant agored i niwed yn bresennol yn ystod yr wythnos, 24 Mawrth i 29 Mai 2020**




Ffynhonnell: DataCymru a Chyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ionawr 2020 (CYBLD), Llywodraeth Cymru

**Nifer a chanran y plant agored i niwed yn bresennol yn ystod yr wythnos, 24 Mawrth i 29 Mai 2020 (MS Excel)**

Plant agored i niwed yw’r rhai sydd dan ofal gweithiwr cymdeithasol a’r rhai sydd â Datganiad o anghenion addysgol arbennig. Gweler y **nodiadau** am ragor o wybodaeth.

Mae'r canrannau yn y siart hon yn seiliedig ar gyfanswm amcangyfrifedig o 24,112 o blant agored i niwed yng Nghymru. Gweler y **nodiadau** am ragor o fanylion ar y cyfrifiad hwn. Mae'r canrannau a ddangosir yn gyfartaleddau wythnosol o ganran yr holl blant agored i niwed sy'n mynychu lleoliadau.

Yn ystod yr wythnos o 26 Mai i 29 Mai:

- Ar gyfartaledd mynychodd 890 (3.7%) o blant agored i niwed leoliadau, i lawr o 1,200 (5.0%) yr wythnos flaenorol ond i fyny o 340 (1.4%) yn yr wythnos cyn gwyliau ysgol y Pasg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-26-i-29-mai-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## 2. Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

### Cyd-destun

Ar ddydd Mercher 18 Mawrth 2020 **cyhoeddwyd y byddai pob sefydliad addysgol yng Nghymru yn cau o ddydd Gwener 20 Mawrth 2020 fan bellaf**. Yr unig eithriad yw ddarpariaeth ar gyfer plant gweithwyr allweddol a phlant sy'n agored i niwed oherwydd y pandemig parhaus coronafeirws.

Mae gan **Addysg a gofal plant: coronafeirws** ystod eang o wybodaeth am addysg yng Nghymru ac effaith coronafeirws.

Mae'r wybodaeth hon yn helpu i fonitro'r nifer sy'n derbyn lle a'r galw am leoedd ac yn cyfrannu at fonitro a gwneud penderfyniadau ledled y DU.

### Diffiniad o blant agored i niwed

Plant agored i niwed yw'r rhai sydd dan ofal gweithiwr cymdeithasol a'r rhai sydd â Datganiad o anghenion addysgol arbennig. At ddibenion y ddarpariaeth, mae'r rhai sydd dan ofal gweithiwr cymdeithasol yn cynnwys plant â chynlluniau gofal a chymorth neu gynlluniau cymorth, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein tudalen **Plant agored i niwed a diogelu: y coronafeirws**.

I gyfrifo canran y plant agored i niwed sy'n mynychu lleoliad, rydym wedi amcangyfrif bod cyfanswm y plant sy'n agored i niwed yng Nghymru yn 24,112. Cyfrifir hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Nifer y plant yn y Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chefnogaeth (CRCS) gyda UPN ym mis Mawrth 2019 | 13,462 |
| Nifer y plant yn CYBLD gyda datganiad o anghenion addysgol arbennig ym mis Ionawr 2020 | 13,513 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-26-i-29-mai-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| | |
|---|---|
| Nifer y plant yn CRCS a CYBLD | 2,863 |
| Nifer y plant yn CYBLD ar ôl tynnu allan y plant hynny sydd hefyd yn CRCS | 13,513 - 2,863 = 10,650 |
| Nifer y plant yn CRCS + nifer y plant ychwanegol yn CYBLD = nifer y plant agored i niwed | 13,462 + 10,650 = 24,112 |

## Perthnasedd

Defnyddir yr ystadegau hyn yn ddyddiol at nifer o ddibenion:

- deall goblygiadau ar galw ac adnoddau
- cefnogi cyngor ar sail tystiolaeth ar benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch adolygiadau o drefniadau cyfyngiad symud
- cyfraniadau at fonitro a gwneud penderfyniadau ledled y DU, gyda ffigurau ar gyfer Cymru yn cael eu darparu bob dydd i Lywodraeth y DU
- briffio gweinidogol a chynadleddau y wasg

## Cywirdeb

Cesglir data yn ddyddiol trwy ffurflen ar-lein a ddatblygir ac a gynhelir gan **DataCymru**. Casgliad cyfanredol yw hwn yn hytrach na bod ar lefel disgyblion unigol. Dilysir y data yn erbyn ffurflenni blaenorol a holir unrhyw newidiadau sylweddol.

Gofynnir i awdurdodau lleol gyflwyno data erbyn 3pm bob diwrnod.

Mae'r casgliad data yn cwmpasu'r holl leoliadau y mae awdurdodau lleol yn eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-26-i-29-mai-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

defnyddio i ddarparu gofal plant yn ystod y pandemig coronafeirws. Nid oes rhaid o reidrwydd i'r lleoliadau hyn fod yn ysgolion. Gall awdurdodau lleol ddewis defnyddio cyfleusterau cymunedol eraill i ddarparu darpariaeth. Ar hyn o bryd nid yw'r data'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth mewn ysgolion annibynnol.

Mae'r casgliad data yn cynnwys plant o unrhyw oedran.

Cyfrifir cyfraddau gan ddefnyddio data o **gyfrifiad ysgolion Ionawr 2020**. Sylwch fod yr enwaduron a ddefnyddir ar gyfer cyfanswm y plant yn yr ysgol a chyfanswm y staff, ond efallai y bydd plant a staff yn mynychu lleoliadau na fyddent fel arfer yn mynychu. Mae'r cyfraddau i fod i roi arwydd cyffredinol.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Mae'r data yn y datganiad hwn yn darparu data ar gyfer yr wythnos ddiwethaf a chymariaethau a'r wythnos blaenorol.

## Hygyrchedd ac eglurder

Mae'r datganiad ystadegol cyntaf hwn yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw ac yna ei gyhoeddi ar yr adran **Ystadegau ac Ymchwil wefan**. Mae Taenlen Dogfen Agored yn cyd-fynd ag ef i ganiatáu i ddefnyddwyr gael mynediad uniongyrchol at y data tu ol i'r siartiau yn y datganiad hwn.

## Cymharedd

Cyhoeddwyd data ar gyfer **Lloegr** am y tro cyntaf ar 21 Ebrill 2020.

Nid yw'r Alban na Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi data.

## Statws Ystadegau Gwladol

Nid yw'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol. Fodd bynnag, cyn bell ag sy'n bosib, meant wedi'u casglu a dilysu yn unol â'r pileri a'r egwyddorion yn y **Cod**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-26-i-29-mai-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Ymarfer ar gyfer Ystadegau**. Rydym yn parhau i ddatblygu'r broses casglu data a sicrhau ansawdd er mwyn gwella'r data.

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn gyflym mewn ymateb i ddigwyddiadau'r sy’n datblygu dros y byd. Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, ar ran Awdurdod Ystadegau'r DU, wedi eu hadolygu yn erbyn sawl agwedd allweddol o’r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ac yn eu hystyried yn gyson â phileri'r Cod o Ddibynadwyedd, Ansawdd a Gwerth.

Llythyr gan y Cyfarwyddwr Rheoleiddio Cyffredinol yn **cymeradwyo cyhoeddi’r ystadegau yma i'w gael ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn  ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol” sy’n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai’r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu’r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â’u hasesiadau llesiant a’u cynlluniau llesiant lleol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-26-i-29-mai-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Diweddariad nesaf

Ar hyn o bryd, datganiad ystadegol wythnosol yw hwn. Bydd yn cael ei gyhoeddi ganol dydd bob dydd Llun. Byddwn yn adolygu'r amlder yn unol ag newidiadau mewn anghenion defnyddwyr.

Bydd y datganiad nesaf dydd Llun 8 Mehefin.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at **ystadegau.ysgolion@llyw.cymru**.

# 3. Manylion cyswllt

Ystadegydd: Stephen Hughes
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **ystadegau.ysgolion@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 55/2020

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-26-i-29-mai-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Presenoldeb mewn lleoliadau awdurdod lleol yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19): 26 i 29 Mai 2020** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-26-i-29-mai-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-26-i-29-mai-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.